

## Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

### Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Fehefin 2105

Presennol -Einion Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, John D Jones, Helen Ellis, Guto G Jones, Prys Ellis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Hefin Edwards, Ieuan Jones, Alun Jones, Peter Lewis.

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain Ebrill 2015.

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ail ethol Einion Edwards yn Gadeirydd a Hefin Edwards yn Is Gadeirydd.

#### [1] Yr Heddlu

Croesawyd yr Arolygydd Geraint Jones i'r cyfarfod ac esboniodd ynglŷn â'r trefniadau i geisio atal y "raves" yn y coedwigoedd cyfagos. Cafwyd sgwrs hefyd ynglŷn â materion cyffredinol sef gwaharddiad cyflymdra a.y.b.

#### [1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd y wybodaeth gan Siân Williams [Cyngor BS Conwy] bod y bontbren wedi ei nodi fel prosiect i'w wneud gydag arian gan y cynllun i wella hawliau tramwy.

#### [1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng

Nodwyd bod y Cyng. Peter Lewis yn gwneud ymholiadau.

#### [1.3] Goleuadau/Maes y Ffynnon

Eglurodd y clerch bod trefniadau mewn llaw i osod dau olau ychwanegol.

#### [1.4] Gwasanaeth Iechyd

Nodwyd bod y mater yn parhau.

#### [1.5] Gwasanaeth Sgip

Y clerch i wneud ymholiadau ynglŷn costau sgip gan Graig Lelo

#### [1.6] Goleuadau Nadolig

Dywedodd y clerch bod Mr Adrian Padan yn gwneud ymholiadau ynglŷn â goleuadau solar.

Y brif agenda

#### [1.7] Materion Cynllunio

[a] Codi uned ddofendod [poultry unit] Tai'n-y-Foel, Cerrig-y-Drudion.

[b] Tystysgrif cyfreitholdeb ar gyfer estyniad arfaethedig, 1 Bryn Dedwydd Cefn Brith.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.8] Cyfrifon 2014/15

[a] Penderfynwyd cymeradwyo cyfrifon y flwyddyn ariannol 2014/15

[b] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol. Cyfeiriodd y clerc at y sylwadau canlynol gan yr archwiliwr

[1] Nad oedd y Cadeirydd wedi llofnodi pob tudalen o'r cofnodion

[2] Er bod taliad wedi ei dderbyn gan y clwb snwcer a'i gofnodi, nid oedd copi o'r anfoneb yn y llyfr ar gyfer llogi'r Ystafell Blwyf.

Y clerc i ofalu bod y ddau fater yn cael sylw.

[1.9] Cynllun Chwarae'r Haf

Penderfynwyd ymuno a'r cynllun

[2] Hylwysydd Tai Gwledig

Eglurodd y clerc bod yr hwylusydd tai Ms Buddug Williams wedi trefnu cyfarfod yn y Ganolfan o 5.00 y prynhawn hyd i 8.00 y.h. ar y 25ain Fehefin i drafod anghenion lleol.

[2.1] Arwyddion Cwn

Deallwyd bod yr arwyddion yng Nghae Llwyd wedi ei gorchuddio gan fod rhywun wedi ei rhoi paent arnynt. Y clerc dynnu sylw'r Cyngor Sir i'r mater.

[2.2] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn

Siec 100749 Hope House £25.00

100750 Gofal Cancr Macmillan £25.00

100751 Gŵyl Drama Corwen £15.00

100752 Clwb Peldroed Cerrig £75.00

100753 Ambiwylans Awyr £75.00

Cadeirydd\_\_\_\_\_